Adders are Amazing! Gwiberod Gwych!

# 7. NADROEDD GWYNT

## CYFLWYNIAD

Rydyn ni'n dwlu ar y syniad hwn y mae Kelvin Lawrence o DARG (*Derbyshire Amphibian and Reptile Group*) wedi ei anfon atom. Mae'n gweithio'n dda mewn sawl lleoliad, nid oes angen rhyw llawer o ddefnyddiau, mae'n lot o hwyl ac yn effeithiol iawn. Mae plant wrth eu bodd gyda'r rhain!

## DEFNYDDIAU:

- Platiau papur (mae DARG yn awgrymu mai gwyrdd sy'n gweithio orau, ond mae gwyn yn iawn hefyd)
- Gwlân
- Sisyrnau
- Pensiliau
- Mynawyd neu gwmpawd (dewisol)
- Pennau ffel (Sharpies) (dewisol)
- Lluniau o nadroedd brodorol (dewisol)

## GWNEWCH!

**1** Trowch y plât wyneb i waered, a darluniwch ben neidr ger yr ymyl, ac yna sbiral i ffurfio corff y neidr, gan weithio tuag at y cynffon yng nghanol y plât.

**2** Torrwch y pen yn ofalus, a gweithio am i mewn, tuag at y canol (cynffon). Torrwch unrhyw ddarnau gormodol i ffwrdd.






## GWNEWCH!

**3** Gwnewch dwll bach yng nghanol y plât, ar ddiwedd y gynffon. Defnyddiwch bensil miniog, cwmpawd neu fynawyd, fel y gwelir yn y llun yma. Defnyddiwch hwn i fwydo ychydig o wlân trwyddo. Clymwch ar y pen arall i'w ddiogelu, ac yna'i hongian.

**4** Addurnwch eich neidr os ydych yn dymuno gwneud hynny! Dyma neidr blaen y mae DARG wedi ei chreu gan ddefnyddio plât papur lliw gwyrdd golau.






**5** Gallech geisio troi eich neidr yn wiber! Dyma un yr ydym ni wedi ei gwneud ...

**6** ... neu beth am roi tro ar neidr y gwair, neidr lefn neu hyd yn oed neidr ddefaid? Gallwch gynnig opsiynau gwahanol ar eich stondin a dangos lluniau i arwain pobl.





**7** Dangoswch i'r rheiny sy'n cymryd rhan yn y gweithgaredd sut y mae'r gwynt yn effeithio ar y neidr! Efallai y gallech hongian rhai i fyny er mwyn tynnu sylw at eich stondin. Maen nhw'n troelli'n hardd!

